PECYN GWYBODAETH

RHEOLWR DATA, SYSTEMAU GWYBODAETH AC ARHOLIADAU LLAWN AMSER A PHARHAOL
CYFLOG – GRADDFA 10



'Ysgol Gydol Oes ble mae pob plentyn yn cyfri'

www.bropedr.ceredigion.sch.uk



HYSBYSEB

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch mawr am ddangos diddordeb mewn swydd llawn amser a pharhaol fel Rheolwr Data, Systemau Gwybodaeth ac Arholiadau yn Ysgol Bro Pedr.

Ysgol dwyieithog yw Ysgol Bro Pedr a rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn un o ysgolion cyntaf 3-19 Cymru, ac yn torri tir newydd o ran darparu addysg gydol oed ar gyfer ein disgyblion. Er bod nifer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol yn 3 oed, daw nifer yn ogystal o ysgolion cynradd partner eraill o'r Awdurdod Lleol ac o Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 960 o ddisgyblion ar rôl yr ysgol – 321 o ddisgyblion Meithrin i flwyddyn 6 a 639 o ddisgyblion Blwyddyn 7-13 (sy'n cynnwys 79 o ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 55 o ddisgyblion ym mlwyddyn 13).

Daw 69.4% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle na defnyddir y Gymraeg. Mae'r disgyblion yn cael eu ffrydio'n ieithyddol, gyda dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dosbarthiadau Cymraeg Ail-Iaith ym mlynyddoedd 4-13. Mae'r ysgol wedi mynd trwy ymgynghoriad llwyddiannus yn ddiweddar sy'n golygu bod ein disgyblion Dysgu Sylfaen a Blwyddyn 3 i gyd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Ar hyn o bryd, mae 24.5% o'n disgyblion yn hawlio prydiau ysgol am ddim (20.97% o'n disgyblion oed uwchradd a 31.7% o'n disgyblion oed cynradd). Ar hyn o bryd, mae 15 o ddisgyblion sydd mewn gofal yn mynychu ein hysgol ac mae 16 o ddisgyblion yr ysgol yn ofalwyr ifanc. Hefyd, mae 10.1% o'n disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ganran yn is o fewn yr oed cynradd (9.03%) o'i gymharu â'r oed uwchradd (10.64%). Rydym yn falch iawn o'n cymuned cynhwysol yn Ysgol Bro Pedr a rydym yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer ystod lawn o alluoedd a chefndiroedd.

Lleolir Canolfan Y Bont, sef adnodd sirol ar gyfer disgyblion o oed uwchradd ag anghenion amrywiol (ASD, SLD, PMLD, MSI), ar safle'r ysgol. Mae'r ganolfan yn rhan lawn o'r ysgol, ac mae'r disgyblion ar rôl Ysgol Bro Pedr. Yn ogystal, sefydlwyd uned Sgiliau Bywyd sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol lled ddwys a disgyblion ymddygiadol bregus a chynigai barhad a dilyniant i rai o ddisgyblion Canolfan y Bont lle'n berthnasol ac ymarferol. Mae yna 11 o ddisgyblion yn mynychu Canolfan Y Bont a 21 o ddisgyblion yn mynychu Sgiliau Bywyd, ar hyn o bryd.

Mae Tîm Arwain Ysgol Bro Pedr yn cynnwys: Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, dau Bennaeth Cynorthwyol, Arweinydd Lles ac Arweinydd Cynnydd.





PROSES YMGEISIO

Dyddiad Cau	Dydd Iau, 3ydd o Ragfyr 2026
Cyfweliadau	Dydd Iau, 10fed o Ragfyr 2026
Dyddiad Dechrau	Cyn gynted â phosib

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flaenoriaethau allweddol i Gyngor Sir Ceredigion. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn pob plentyn, a byddant yn cymryd camau i ddiogelu'u lles a chydnabod eu hawl i gael eu hamddiffyn. Caiff hyn ei gefnogi gan ethos cyffredinol yr holl ysgolion. Bydd angen gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu ymweliad cysyllter â'r Pennaeth, Mrs Carys Morgan, drwy ebost ar MorganC506@hwbcymru.net neu drwy ffonio'r ysgol ar 01570 422214

The advert is for a full-time, permanent Data, Information Systems and Examinations Manager where the ability to communicate through the medium of Welsh and English is essential.





SWYDD DDISGRIFIAD


DIBEN Y SWYDD

Prif bwrpas rôl Rheolwr Data, Systemau Gwybodaeth ac Arholiadau ein hysgol bydd sicrhau bod data, systemau gwybodaeth yr ysgol, data perfformiad a threfniadau arholiadau yn cael eu rheoli'n gywir, yn effeithlon ac yn unol â gofynion statudol. Mae'r rôl yn gyfrifol am gynnal uniondeb a dibynadwyedd data'r ysgol, datblygu a rheoli ein systemau gwybodaeth reoli (MIS) sef Bromcom, darparu adroddiadau a dadansoddiadau i gefnogi penderfyniadau ar bob lefel, a sicrhau bod holl brosesau arholiadau mewnol ac allanol yn cael eu gweinyddu'n effeithiol ac yn unol â rheoliadau cenedlaethol. Bydd deiliad y rôl hefyd yn darparu arweiniad technegol ac ymarferol ar ddefnydd systemau data, yn cydlynu prosesau casglu a dilysu gwybodaeth ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol rhwng yr ysgol, cyrff dyfarnu, awdurdodau lleol a darparwyr systemau gwybodaeth. Trwy sicrhau bod gwybodaeth gywir, amserol a hygyrch ar gael, mae'r rôl yn gwneud cyfraniad hanfodol at effeithlonrwydd gweithredol, cydymffurfiaeth statudol a chefnogi blaenoriaethau strategol yr ysgol.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. RHEOLI DATA A GWYBODAETH

- Sicrhau cywirdeb data disgyblion, staff a dosbarthiadau ar ein MIS sef Bromcom
- Cynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau ar gyfer staff, uwch arweinwyr, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac asiantaethau allanol
- Monitro data presenoldeb, cyrhaeddiad, cynnydd ac ymddygiad
- Cefnogi cynllunio ysgol drwy ddarparu gwybodaeth ddibynadwy i lywio penderfyniadau
- Sicrhau bod holl gasgliadau data statudol yr ysgol yn cael eu cwblhau'n gywir ac o fewn yr amserlenni penodedig
- Datblygu a chynnal gweithdrefnau sicrhau ansawdd data er mwyn gwarantu cysondeb, cywirdeb a chydymffurfiaeth â gofynion diogelu data a GDPR
- Hyfforddi a chefnogi staff wrth ddefnyddio systemau gwybodaeth yr ysgol, gan hyrwyddo arferion gorau o ran cofnodi, monitro a defnyddio data





SWYDD DDISGRIFIAD

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

2. RHEOLI SYSTEMAU A SEILWAITH GWYBODAETH

- Arwain ar ddatblygu a defnyddio systemau gwybodaeth yr ysgol
- Sicrhau bod prosesau cofnodi a defnyddio data yn gyson ar draws yr ysgol
- Datrys problemau systemau a chydweithio â darparwyr meddalwedd a gwasanaethau TG
- Datblygu effeithlonrwydd gweithredol drwy awtomeiddio prosesau a gwella llif gwybodaeth
- Rheoli hawliau mynediad defnyddwyr, trefniadau diogelwch a chydymffurfiaeth â gofynion GDPR a diogelu data
- Cynllunio a gweithredu datblygiadau a diweddariadau i systemau gwybodaeth yr ysgol gan weithio gyda darparwyr meddalwedd a gwasanaethau TG
- Monitro ac adolygu effeithiolrwydd systemau gwybodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi anghenion gweithredol a strategol yr ysgol

3. RHEOLI ARHOLIADAU

- Gweithredu fel Swyddog Arholiadau'r ysgol a reoli'r swyddogaeth honno
- Cofrestru ymgeiswyr gyda byrddau arholi megis CBAC, Pearson, City and Guilds neu Agored Cymru
- Cefnogi gyda trefnu amserlenni arholiadau, addasiadau mynediad arbennig a goruchwylio gweithdrefnau
- Sicrhau cydymffurfiaeth lawn â rheoliadau'r Joint Council for Qualifications (JCQ)
- Cyhoeddi canlyniadau a rheoli prosesau adolygu marcio ac apeliadau
- Cydlynu a rheoli gwaith y goruchwylwyr arholiadau, gan sicrhau bod pob arholiad yn cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau perthnasol
- Rheoli prosesau gwaith cwrs, asesiadau di-arholiad (NEA) a chymedroli gyda chyrff dyfarnu.
- Gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer staff, disgyblion, rhieni a chyrff dyfarnu ar bob mater sy'n ymwneud ag arholiadau a chymwysterau.





BLAENORIAETHAU YSGOL 2026-2027

BLAENORIAETH 1

Gwreiddio ymarfer perthynol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac agweddau at ddysgu.

Embed relational practice in order to have a positive impact on attendance and learners' attitudes towards learning.

BLAENORIAETH 2

Sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth ar waith a'r lefel her i gael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion

Ensure consistency in the quality of feedback on work and the level of challenge, in order to have a positive impact on the standard of pupils' work.

BLAENORIAETH 3

Cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn y gwersi cyfrwng Saesneg er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus

Increase the incidental use of Welsh in English-medium lessons in order to encourage pupils to use Welsh more confidently.

